# Pleidleisiau a Thrafodion dydd Mercher, 8 Mehefin 2005

## Dechreuodd y Cyfarfod am 2.00pm

......................................

## 2.00pm

**Cwestiynau Llywodraeth Leol i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus**

Atebwyd yr 11 cwestiwn cyntaf. Cafodd cwestiynau 4+5+11 eu grwpio.

......................................

## 2.36pm

## Cwestiynau i Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

Atebwyd y 10 cwestiwn cyntaf

......................................

**3.12pm**

## Cynigion i ddirprwyo swyddogaethau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 1998 a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol

**NDM2476**

**Jane Hutt (Bro Morgannwg)**
**John Marek (Wrexham)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Er ei fod yn nodi na fydd unrhyw beth yn y cynnig yn lleihau goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn neu yn lleihau rôl Pwyllgorau'r Cynulliad wrth gyflawni'r swyddogaethau a ddirprwywyd gan y cynnig hwn, wrth arfer ei bwerau o dan adrannau 62 a 63 Deddf Llywodraeth Cymru 1998,

(1) yn diddymu unrhyw ddirprwyaeth bresennol ganddi i Brif Weinidog y Cynulliad o dan:

(a) adrannau 70(4) a 71(2) Deddf Llywodraeth Cymru 1998;

(b) Deddf Diogelu Data 1998, a

(c) Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000;

(2) yn dirprwyo ei swyddogaethau i Brif Weinidog y Cynulliad o dan:

(a) adrannau 70(4) a 71(2) Deddf Llywodraeth Cymru 1998;

(b) Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000; a

(c) Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (O.S. 2004/3391),

ym mhob achos, mewn perthynas â dogfennau neu wybodaeth sydd ym meddiant neu o dan reolaeth unrhyw un o Weinidogion y Cynulliad neu unrhyw aelod o staff y Cynulliad y mae swyddogaethau rheoli'r gwasanaeth sifil, o fewn ystyr adran 1 Deddf y Gwasanaeth Sifil (Swyddogaethau Rheoli) 1992, wedi'u dirprwyo i'r Prif Weinidog mewn perthynas â hwy;

(3) yn dirprwyo ei swyddogaethau o dan Ddeddf Diogelu Data 1998 i'r Prif Weinidog, mewn perthynas â data a brosesir (o fewn ystyr Deddf Diogelu Data 1998) gan unrhyw un o Weinidogion y Cynulliad neu unrhyw aelod o staff y Cynulliad y mae swyddogaethau rheoli'r gwasanaeth sifil, o fewn ystyr adran 1 Deddf y Gwasanaeth Sifil (Swyddogaethau Rheoli) 1992, wedi'u dirprwyo i'r Prif Weinidog mewn perthynas â hwy, neu ddata a brosesir ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gais un o Weinidogion y Cynulliad neu aelod o staff fel y nodwyd uchod;

(4) yn dirprwyo ei swyddogaethau i Bwyllgor y Ty o dan:

(a) adrannau 70(4) a 71(2) Deddf Llywodraeth Cymru 1998;

(b) Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000; a

(c) Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (O.S. 2004/3391),

ym mhob achos, mewn perthynas â dogfennau neu wybodaeth sydd ym meddiant neu o dan reolaeth:

(i) y Pwyllgor hwnnw, neu

(ii) unrhyw aelod o'r Pwyllgor hwnnw sy'n gweithredu yn rhinwedd ei swydd, neu

(iii) unrhyw aelod o staff y Cynulliad sy'n gwasanaethu'r Pwyllgor hwnnw at ddibenion cylch gorchwyl y Pwyllgor hwnnw;

(5) yn dirprwyo ei swyddogaethau o dan Ddeddf Diogelu Data 1998 i Bwyllgor y Ty, mewn perthynas ag:

(a) data a brosesir gan (o fewn ystyr Deddf Diogelu Data 1998):

(i) y Pwyllgor hwnnw, neu

(ii) unrhyw aelod o'r Pwyllgor hwnnw sy'n gweithredu yn rhinwedd ei swydd, neu

(iii) unrhyw aelod o staff y Cynulliad sy'n gwasanaethu'r Pwyllgor hwnnw,

neu

(b) data a brosesir ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gais y Pwyllgor hwnnw neu aelod o staff fel y nodir uchod, ym mhob achos at ddibenion cylch gorchwyl y Pwyllgor;

(6) yn dirprwyo ei swyddogaethau i staff y Cynulliad (ac eithrio pan fydd swyddogaethau wedi'u dirprwyo i Bwyllgor y Ty o dan y cynnig dirprwyo hwn) o dan:

(a) adrannau 70(4) a 71(2) Deddf Llywodraeth Cymru 1998;

(b) Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000; a

(c) Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 2004 (O.S. 2004/3391),

ym mhob achos, mewn perthynas â dogfennau neu wybodaeth sydd ym meddiant neu o dan reolaeth unrhyw aelod o staff y Cynulliad y mae swyddogaethau rheoli'r gwasanaeth sifil, o fewn ystyr adran 1 Deddf y Gwasanaeth Sifil (Swyddogaethau Rheoli) 1992, wedi'u dirprwyo i Bwyllgor y Ty mewn perthynas â hwy; a

(7) yn dirprwyo ei swyddogaethau i staff y Cynulliad (ac eithrio pan fydd swyddogaethau o'r fath wedi'u dirprwyo i Bwyllgor y Ty drwy'r cynnig dirprwyo hwn) o dan Deddf Diogelu Data 1998, mewn perthynas â:

(a) data a brosesir (o fewn ystyr Deddf Diogelu Data 1998) gan unrhyw aelod o staff y Cynulliad y mae swyddogaethau rheoli'r gwasanaeth sifil, o fewn ystyr adran 1 Deddf y Gwasanaeth Sifil (Swyddogaethau Rheoli) 1992, wedi'u dirprwyo i Bwyllgor y Ty, neu

(b) data a brosesir ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gais aelod o staff o'r fath.

*Gwneir y ddirprwyaeth hon gyda'r sicrwydd y gellir dirprwyo'r swyddogaethau hynny, fel y bo'n briodol, i Weinidog perthnasol y Cynulliad ac i aelodau o staff.*

*Mae copïau o'r Deddfau a gynhwysir yn y cynnig hwn i'w gweld yn y cysylltiadau hyn:*

Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2000/20000036.htm

Deddf Diogelu Data 1998
http://www.opsi.gov.uk/acts/acts1998/19980029.htm

Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004
http://www.opsi.gov.uk/si/si2004/20043391.htm

Deddf Llywodraeth Cymru 1998
http://www.opsi.gov.uk/acts/acts1998/19980038.htm

**Cynhaliwyd pleidlais:**

**Y cynnig,**
O Blaid 54; Ymatal 0;Yn erbyn 0; Cyfanswm 54
**Derbyniwyd y cynnig**

**.....................................**

**3.22pm**

## Dadl ar ganlyniad yr ymgynghoriad ar y polisi o uno'r CCNCau

**NDM2481 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi canlyniad yr ymarfer ymgynghori a gyflawnwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch cyfuno Awdurdod Datblygu Cymru (ADC), Bwrdd Croeso Cymru (BCC) a Chyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (ELWa), a gyhoeddwyd ar 24 Mai 2005.

*Rhoddwyd copïau o 'Creu Cysylltiadau: Adroddiad ar yr ymatebion i'r ymgynghori gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch cyfuno ELWa, ADC, a BCC' yn Llyfrgell yr Aelodau ar 24 Mai 2005, a gellir eu gweld trwy'r cyswllt gwe amgaeedig.*
*http://www.wales.gov.uk/themesmergers/content/responses/report-e.pdf*
*http://www.cymru.gov.uk/themesmergers/content/responses/report-w.pdf*

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau canlynol at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cynnal yn unigol:*

### Gwelliant 1. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi y bernir llwyddiant neu fethiant yr uniad yn ôl y graddau y gwelir gwelliant amlwg mewn cyflenwi gwasanaethau, a hynny'n weithredol o ddiwrnod cyntaf yr uniad.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O Blaid 45; Ymatal 10;Yn erbyn 0; Cyfanswm 55
**Derbyniwyd Gwelliant 1**

### Gwelliant 2. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn mynegi pryder y bydd y broses uno yn tynnu sylw oddi ar gyflenwi gwasanaethau; y gellid colli staff ac arbenigedd; ac yn gofyn bod cyflenwi gwasanaethau yn canolbwyntio lawn gymaint ar y cwsmer ar

ôl cyhoeddi'r uniad ag yr ydoedd gynt.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O Blaid 26; Ymatal 0;Yn erbyn 29; Cyfanswm 55
**Ni dderbyniwyd Gwelliant 2**

## Gwelliant 3. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gofyn bod Llywodraeth y Cynulliad, erbyn 31 Rhagfyr 2005, yn cyhoeddi datganiad ariannol llawn o'r adnoddau ychwanegol a ymrwymwyd i'r Rhaglen Rheoli Newid.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O Blaid 55; Ymatal 0;Yn erbyn 0; Cyfanswm 55
**Derbyniwyd Gwelliant 3**

## Gwelliant 4. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gofyn bod Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi sicrwydd o'r swyddogaethau y bydd angen staff ar eu cyfer erbyn 14 Gorffennaf 2005, er mwyn dal gafael ar sgiliau ac arbenigedd.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O Blaid 26; Ymatal 0;Yn erbyn 29; Cyfanswm 55
**Ni dderbyniwyd Gwelliant 4**

## Gwelliant 5. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynhyrchu adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgorau Cynulliad perthnasol ynglyn â chost rhaglen uno'r CCNC; ac yn datgelu gerbron cyfarfod llawn o'r Cynulliad ei chynlluniau i wella'r broses o graffu ar bolisi'r llywodraeth a gwariant yn y meysydd polisi hynny yr effeithir arnynt trwy uno CCNC.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O Blaid 55; Ymatal 0;Yn erbyn 0; Cyfanswm 55
**Derbyniwyd Gwelliant 5**

## Gwelliant 6. David Melding (Canol De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at yr agwedd ad hoc a'r diffyg cynllunio strategol a fu ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru, a berodd ddryswch i staff a moral isel, ac yn nodi bod 45.1% o staff wedi ystyried gadael eu swyddi gydag ADC yn y 6 mis diwethaf.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O Blaid 16; Ymatal 10;Yn erbyn 29?; Cyfanswm 55
**Ni dderbyniwyd Gwelliant 6**

## Gwelliant 7. David Melding (Canol De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am ddatganiad ar fyrder ar y goblygiadau pensiwn i staff CCNC, i gynnwys unrhyw gynlluniau i gywiro diffygion mewn cronfeydd pensiwn a'r ffynhonnell ariannol i'w defnyddio i wneud hynny.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O Blaid 54; Ymatal 0;Yn erbyn 0; Cyfanswm 54
**Derbyniwyd Gwelliant 7**

## Gwelliant 8. David Melding (Canol De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y ffordd y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn awr yn beirniadu CCNC a hwythau wedi eu hamddiffyn a'u canmol gynt am eu gweithredoedd.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O Blaid 26; Ymatal 0;Yn erbyn 29; Cyfanswm 29
**Ni dderbyniwyd Gwelliant 8**

## Gwelliant 9. David Melding (Canol De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am gyhoeddi ar fyrder nodiadau, memos a chofnodion trafodaethau a fu'n ystyried y diswyddiadau a ddeilliai o'r uniad.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O Blaid 16; Ymatal 0;Yn erbyn 39; Cyfanswm 55
**Ni dderbyniwyd Gwelliant 9**

## Gwelliant 10. David Melding (Canol De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am gyflwyno cynllun busnes, wedi'i gostio, i'r Cynulliad ei ystyried, ar fyrder.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O Blaid 26; Ymatal 0;Yn erbyn 29; Cyfanswm 55
**Ni dderbyniwyd Gwelliant 10**

## Gwelliant 11. David Melding (Canol De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am gyhoeddi ar fyrder ddadansoddiad o'r arbedion o £10M y flwyddyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu eu sicrhau yn sgil yr uniad.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O Blaid 55; Ymatal 0;Yn erbyn 0; Cyfanswm 55
**Derbyniwyd Gwelliant 11**

## Gwelliant 12. David Melding (Canol De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am sefydlu tîm gwerthuso annibynnol i gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cynulliad ar gyflenwi gwasanaethau, canlyniadau a gwerth am arian yr adrannau newydd a grëir gan yr uniad. Cyfansoddiad y tîm gwerthuso i'w gytuno arno gan bob plaid wleidyddol.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O Blaid 26; Ymatal 0;Yn erbyn 29; Cyfanswm 55
**Ni dderbyniwyd Gwelliant 12**

## Gwelliant 13. David Melding (Canol De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod yr angen am agwedd ranbarthol gref ynglyn â pha gyllidebau a gaiff eu datganoli.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O Blaid 54; Ymatal 0;Yn erbyn 1; Cyfanswm 55
**Derbyniwyd Gwelliant 13**

## Gwelliant 14. David Melding (Canol De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gofyn bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn sicrhau craffu digonol dros swyddogaethau ELWa unwaith iddo ddod dan Adran Addysg a Dysgu Gydol Oes y Cynulliad.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O Blaid 54; Ymatal 0;Yn erbyn 0; Cyfanswm 54
**Derbyniwyd Gwelliant 14**

## Gwelliant 15. David Melding (Canol De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i bwysleisio bod yr Adran Addysg a Dysgu Gydol Oes yn ymateb yn llwyr i anghenion y gweithle a’r dysgwr.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O Blaid 55; Ymatal 0;Yn erbyn 0; Cyfanswm 55
**Derbyniwyd Gwelliant 15**

## Gwelliant 16. David Melding (Canol De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn sicrhau bod Adran Addysg a Dysgu Gydol Oes y Cynulliad yn hyrwyddo gofynion addysg bellach ran-amser, ar lefel alwedigaethol ac academaidd, fel ei gilydd, ac yn hwyluso llwybrau tuag at addysg bellach ac uwch.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O Blaid 55; Ymatal 0;Yn erbyn 0; Cyfanswm 55
**Derbyniwyd Gwelliant 16**

## Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig, fel y'i diwygiwyd:

**NDM2481 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

(1) Yn nodi canlyniad yr ymarfer ymgynghori a gyflawnwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch cyfuno Awdurdod Datblygu Cymru (ADC), Bwrdd Croeso Cymru (BCC) a Chyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (ELWa), a gyhoeddwyd ar 24 Mai 2005;

(2) Yn nodi y bernir llwyddiant neu fethiant yr uniad yn ôl y graddau y gwelir gwelliant amlwg mewn cyflenwi gwasanaethau, a hynny'n weithredol o ddiwrnod cyntaf yr uniad;

(3) Yn gofyn bod Llywodraeth y Cynulliad, erbyn 31 Rhagfyr 2005, yn cyhoeddi datganiad ariannol llawn o'r adnoddau ychwanegol a ymrwymwyd i'r Rhaglen Rheoli Newid;

(4) Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynhyrchu adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgorau Cynulliad perthnasol ynglyn â chost rhaglen uno'r CCNC; ac yn datgelu gerbron cyfarfod llawn o'r Cynulliad ei chynlluniau i wella'r broses o graffu ar bolisi'r llywodraeth a gwariant yn y meysydd polisi hynny yr effeithir arnynt trwy uno CCNC;

(5) Yn galw am ddatganiad ar fyrder ar y goblygiadau pensiwn i staff CCNC, i gynnwys unrhyw gynlluniau i gywiro diffygion mewn cronfeydd pensiwn a'r ffynhonnell ariannol i'w defnyddio i wneud hynny;

(6) Yn galw am gyhoeddi ar fyrder ddadansoddiad o'r arbedion o £10M y flwyddyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu eu sicrhau yn sgil yr uniad;

(7) Yn cydnabod yr angen am agwedd ranbarthol gref ynglyn â pha gyllidebau a gaiff eu datganoli;

(8) Yn gofyn bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn sicrhau craffu digonol dros swyddogaethau ELWa unwaith iddo ddod dan Adran Addysg a Dysgu Gydol Oes y Cynulliad;

(9) Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i bwysleisio bod yr Adran Addysg a Dysgu Gydol Oes yn ymateb yn llwyr i anghenion y gweithle a'r dysgwr; ac

(10) Yn sicrhau bod Adran Addysg a Dysgu Gydol Oes y Cynulliad yn hyrwyddo gofynion addysg bellach ran-amser, ar lefel alwedigaethol ac academaidd, fel ei gilydd, ac yn hwyluso llwybrau tuag at addysg bellach ac uwch.

O Blaid 55; Ymatal 0;Yn erbyn 0; Cyfanswm 55
**Derbyniwyd y cynnig, fel y'i diwygiwyd.**

**.....................................**

**4.53pm**

**Dadl fer - NDM2480 Elin Jones (Ceredigion):** O le daw'r Shan Cothi a'r Bryn Terfel nesaf? Dyfodol yr Eisteddfodau Bach. W

**.....................................**

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.10pm**

**.....................................**

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm ddydd Mawrth, 14 Mehefin 2005**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A OSODWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**

**Dogfennau a Osodwyd ar 07 Mehefin 2005**

- Rheoliadau Cyfrifon Dysgu Unigol Cymru (Diwygio) 2005 - LD3810
- Gorchymyn Pysgota am Gregyn Bylchog (Cymru) 2005 - LD3811

**Dogfennau a Osodwyd ar 02 Mehefin 2005**

- Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2005 - LD3801
- The Materials And Articles In Contact With Food (Wales) Regulations 2005 - Regulatory Appraisal - LD3802 *Dim fersiwn Gymraeg ar gael*
- Adroddiad Pwyllgor Yr Amgylchedd, Cynllunio, a Chefn Gwlad - North West Severn Trent and Welsh Regional Flood Defence Committees (Boundaries Alteration) Order 2005 - LD3803 *Dim Cyfieithiad o'r Teitl ar gael*